


# Hawdd ei ddeall: Sut i wneud cais ar-lein am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr


Bydd y canllaw hwn yn eich helpu chi i wneud cais ar-lein am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr gan ddefnyddio gwefan y Llywodraeth.




Gallwch chi ddefnyddio Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr fel prawf adnabod ffotograffig pan fyddwch chi'n pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn y DU.




Byddwch chi'n mynd i orsaf bleidleisio i bleidleisio mewn etholiad.



Allwch chi ddim defnyddio Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr fel prawf adnabod ffotograffig ar gyfer unrhyw beth arall.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



Does dim angen i chi wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr:




- os oes gennych chi brawf adnabod ffotograffig sy'n iawn i'w ddefnyddio i bleidleisio, fel pasbort neu drwydded yrru




- os yw eich prawf adnabod ffotograffig yn hen, ond eich bod chi'n dal i edrych fel y llun ar eich prawf adnabod



- os oedd eich enw ar eich prawf adnabod ffotograffig yn wahanol, ond bod gennych chi ddogfen sy'n profi eich bod chi wedi newid eich enw



Dim ond os byddwch chi wedi cofrestru i bleidleisio y gallwch chi wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



neu os ydych chi wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio.

Cliciwch ar y ddolen isod i fynd i wefan y Llywodraeth i wneud cais ar-lein am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr https://www.gov.uk/apply-for-photo-id-voter-authority-certificate

**Dechreuwch Nawr**

Cliciwch y botwm 'Dechrau nawr' gwyrdd i ddechrau gwneud cais am eich Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr.



Y brawddegau neu'r cwestiynau **mewn print du** yw beth y byddwch chi'n ei weld ar y sgrin.



Pan fyddwch chi'n gwneud cais ar-lein, os bydd yn dweud wrthych chi

**Yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi'i ddweud wrthym, nid oes angen Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr arnoch**



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



Mae hynny'n golygu bod dim angen i chi wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr.



**Ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio?**

Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.



Os nad ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio ac nad ydych chi wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio,



byddwch chi'n cael dolen i dudalen lle gallwch chi gofrestru i bleidleisio.



**Ble rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio?**

Cliciwch ar y rhan o'r DU lle rydych chi'n byw.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols




## Sut rydych chi'n bwriadu pleidleisio?

Cliciwch ar sut rydych chi'n bwriadu pleidleisio mewn etholiadau.



Os byddwch chi'n pleidleisio drwy'r post neu'n pleidleisio drwy ddirprwy, does dim angen i chi wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr.



Mae drwy ddirprwy yn golygu eich bod chi'n gofyn i rywun rydych chi'n ymddiried ynddo i bleidleisio i chi.



Os nad oes gennych chi drwydded yrru cerdyn-llun neu basbort y gallwch ddod â nhw i'r orsaf bleidleisio, ewch i dudalen 12.



**Oes gennych chi drwydded yrru cerdyn-llun y gallwch ddod â hi i'r orsaf bleidleisio?**

Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



Rhaid i'r drwydded yrru cerdyn-llun fod o'r DU neu'r AEE. Ystyr AEE yw Ardal Economaidd Ewropeaidd.




Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau' gwyrdd.



Os nad oes gennych chi drwydded yrru cerdyn-llun, ewch i dudalen 9 i ateb y cwestiynau am eich pasbort.




Os gwnaethoch chi ateb 'oes', bydd yn gofyn i chi

**A yw eich trwydded yrru yn gyfredol?**




Cliciwch i ateb a yw eich trwydded yrru yn gyfredol neu wedi dod i ben. Os bydd y dyddiad arno wedi mynd heibio, bydd wedi dod i ben.


Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols




Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.



Os gwnaethoch chi ateb bod eich trwydded yrru wedi dod i ben, bydd yn gofyn i chi

**Ydych chi’n dal i edrych fel y llun ar eich trwydded yrru sydd wedi dod i ben?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.



**A yw’r enw ar eich trwydded yrru yr un fath â’r un y gwnaethoch gofrestru i bleidleisio ag ef?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.




Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



Os gwnaethoch chi ateb nad yw eich enw yr un fath,



bydd yn gofyn i chi

**A oes gennych ddogfen gyfreithiol sy’n profi’r newid enw hwn y gallwch ddod â hi i’r orsaf bleidleisio?**



Os gallwch chi ddefnyddio eich trwydded yrru fel prawf adnabod ffotograffig i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, bydd yn dweud wrthych chi



**Yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi’i ddweud wrthym, nid oes angen Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr arnoch**



Mae hynny'n golygu bod dim angen i chi wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



**A oes gennych basbort y gallwch ddod ag ef i’r orsaf bleidleisio?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.




Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.




Os gwnaethoch chi ateb ‘oes’, bydd yn gofyn i chi

**A yw eich pasbort yn gyfredol?**




Cliciwch i ateb a yw eich pasbort yn gyfredol neu wedi dod i ben. Os bydd y dyddiad arno wedi mynd heibio, bydd wedi dod i ben.




Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



Os gwnaethoch chi ateb bod eich pasbort wedi dod i ben, bydd yn gofyn i chi

**Ydych chi’n dal i edrych fel y llun ar eich pasbort sydd wedi dod i ben?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.



**A yw’r enw ar eich pasbort yr un fath â’r un y gwnaethoch gofrestru i bleidleisio ag ef?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.

**Parhau**

Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.



Os gwnaethoch chi ateb nad yw eich enw yr un fath,



bydd yn gofyn i chi

**A oes gennych ddogfen gyfreithiol sy’n profi’r newid enw hwn y gallwch ddod â hi i’r orsaf bleidleisio?**



Os gallwch chi ddefnyddio eich pasbort fel prawf adnabod ffotograffig i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, bydd yn dweud wrthych chi



**Yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi’i ddweud wrthym, nid oes angen Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr arnoch**




Mae hynny'n golygu bod dim angen i chi wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



Os nad oes gennych chi drwydded yrru neu basbort y gallwch chi eu defnyddio fel prawf adnabod ffotograffig,




bydd yn gofyn i chi

**Allwch chi ddod ag un o’r canlynol i’r orsaf bleidleisio?**




Cliciwch ar unrhyw un o'r profion adnabod ffotograffig ar y rhestr sydd gennych chi.





Mae'r rhestr o brofion adnabod ffotograffig a allai fod yn iawn i'w defnyddio i bleidleisio yn cynnwys:

- Bathodyn Glas
- Tocyn teithio i bobl hŷn neu anabl gan eich Cyngor lleol. Rhaid bod y tocyn wedi'i gyllido gan y Llywodraeth.
- Yn Llundain: Cerdyn Oyster 60+ neu docyn Freedom




Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.


Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols




Os byddwch chi'n ateb gan ddweud bod gennych chi unrhyw un o'r profion adnabod ffotograffig ar y rhestr, bydd yn gofyn cwestiynau i chi am y prawf adnabod ffotograffig.




Bydd y cwestiynau yn cadarnhau a allwch chi ddefnyddio eich prawf adnabod ffotograffig i bleidleisio.




Bydd yn gofyn i chi

**A yw eich prawf adnabod yn gyfredol?**




Cliciwch i ateb a yw eich prawf adnabod yn gyfredol neu wedi dod i ben.  Os bydd y dyddiad arno wedi mynd heibio, bydd wedi dod i ben.




Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.




Os gwnaethoch chi ateb bod eich prawf adnabod wedi dod i ben, bydd yn gofyn i chi

**Ydych chi'n dal i edrych fel y llun ar eich prawf adnabod sydd wedi dod i ben?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.




**A yw'r enw ar eich prawf adnabod yr un fath â'r un y gwnaethoch gofrestru i bleidleisio ag ef?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.

**Parhau**

Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau' gwyrdd.




Os gwnaethoch chi ateb nad yw eich enw yr un fath,


Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



bydd yn gofyn i chi

**A oes gennych ddogfen gyfreithiol sy’n profi’r newid enw hwn y gallwch ddod â hi i’r orsaf bleidleisio?**




Os gallwch chi ddefnyddio eich prawf adnabod fel prawf adnabod ffotograffig i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, bydd yn dweud wrthych chi



**Yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi’i ddweud wrthym, nid oes angen Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr arnoch**




Mae hynny'n golygu bod dim angen i chi wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr.




Os nad oes gennych chi unrhyw brawf adnabod y gallwch chi ei ddefnyddio fel prawf adnabod ffotograffig pan fyddwch chi'n pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



bydd yn dweud wrthych chi


**Rydych chi eisiau gwneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr**




Cliciwch y botwm 'Dechrau nawr' gwyrdd i ddechrau gwneud cais am eich Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr.



**Beth yw eich cyfeiriad cofrestredig yn y DU?**




Teipiwch eich cod post yn y blwch.




Cliciwch ar 'Dod o hyd i gyfeiriad'.



Cliciwch ar y blwch a dewiswch eich cyfeiriad o'r rhestr.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols




Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.



**Byddwn yn anfon eich Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr i’ch cyfeiriad cofrestredig**



Gallwch chi ddewis a ydych chi am i'ch Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr gael ei hanfon i'r cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio.




**Beth yw eich enw?**




Teipiwch eich enw cyntaf yn y blwch ‘Enw cyntaf’.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols




Os oes gennych chi enw canol, teipiwch yr enw yn y blwch ‘Enwau canol’.




Teipiwch eich enw olaf yn y blwch ‘Enw olaf’.



**Ydych chi wedi newid eich enw ers i chi gofrestru i bleidleisio ddiwethaf?**



Os byddwch chi'n ateb ‘ydw’, byddwch chi'n cael dolen i dudalen lle gallwch chi gofrestru i bleidleisio â'ch enw newydd.




**Beth yw eich dyddiad geni?**

Math:

- diwrnod eich pen-blwydd
- mis eich pen-blwydd
- eich blwyddyn geni



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols




Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau' gwyrdd.



**Ychwanegwch eich llun**


Lanlwythwch lun ohonoch chi'ch hun.




Mae llawer o reolau am y llun.




Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau' gwyrdd.




**Beth yw eich rhif yswiriant gwladol?**

Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol yn y blwch.



Dylai eich rhif Yswiriant Gwladol fod ar eich slip cyflog, neu ar lythyr am dreth, pensiynau neu fudd-daliadau.



Os nad ydych chi'n gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol,



bydd yn gofyn i chi

**Allwch chi lanlwytho unrhyw rai o'r dogfennau hyn?**



Dewiswch pa ddogfennau y gallwch chi eu lanlwytho.




Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau' gwyrdd.




Lanlwythwch y dogfennau i'r blychau lanlwytho.




Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau' gwyrdd.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



Efallai y bydd hefyd yn gofyn i chi

**Lanlwytho dogfennau eraill**



Dewiswch pa fath o ddogfen y gallwch chi ei lanlwytho.




Lanlwythwch y ddogfen.



Efallai y bydd angen i chi lanlwytho 2 ddogfen.

**Parhau**

Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau' gwyrdd.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols




**Beth yw eich manylion cyswllt?**

Dewiswch sut rydych am i ni gysylltu â chi.




Teipiwch eich cyfeiriad e-bost neu'ch rhif ffôn os ydych chi am i ni gysylltu â chi drwy e-bost neu dros y ffôn.

**Parhau**

Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau' gwyrdd.




**Oes angen gwybodaeth sy'n esbonio eich Tystysgrif Awdurdodi Pleidleisiwr arnoch chi mewn braille, print mawr neu fersiwn hawdd ei darllen?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.



Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols

**Parhau**

Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.




Os gwnaethoch chi ateb ‘oes’, bydd yn gofyn i chi

**Pa fformat sydd ei angen arnoch?**



Cliciwch ar yr ateb sy'n berthnasol i chi.

**Parhau**

Wedyn cliciwch ar y botwm ‘Parhau’ gwyrdd.



**Anfon eich cais**

Edrychwch ar bob un o'ch atebion cyn i chi anfon eich cais.




Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols



Os byddwch chi am newid unrhyw ateb, cliciwch ar y blwch 'Newid' wrth ymyl yr ateb rydych chi am ei newid.



Byddwch chi'n symud i dudalen newydd lle gallwch chi newid eich ateb.




Pan fyddwch chi'n fodlon ar bob ateb, cliciwch 'Rwy'n cytuno – anfonwch y cais'.



Pan fyddwch chi'n clicio ar 'Rwy'n cytuno – anfonwch y cais', byddwch chi wedi gorffen eich cais.


Lluniwyd gan ddefnyddio Photosymbols